IS-DDEDDFWRIAETH CYMRU

# NOSC 2026 Rhif 63

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD

## Cyfarwyddyd Diogelu'r Amgylchedd (Cyfarpar Hylosgi Canolig) (Tanwydd Newydd) (Cymru) 2026

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *23 Mawrth 2026* |
| *Yn dod i rym* | *1 Mai 2026* |

Drwy arfer y pwerau a roddir gan reoliad 62(1) a (2) o Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016, mae Gweinidogion Cymru yn rhoi'r Cyfarwyddyd a ganlyn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Chorff Adnoddau Naturiol Cymru fel sy'n ofynnol gan reoliad 62(3) o Reoliadau 2016.

### 1. Enwi, dod i rym a chymhwyso

(1) Enw'r Cyfarwyddyd hwn yw Cyfarwyddyd Diogelu'r Amgylchedd (Cyfarpar Hylosgi Canolig) (Tanwydd Newydd) (Cymru) 2026.

(2) Daw'r Cyfarwyddyd hwn i rym ar 1 Mai 2026.

(3) Mae'r Cyfarwyddyd hwn yn gymwys o ran Cymru.

### 2. Dehongli

Yn y Cyfarwyddyd hwn—

mae i "biomas", "olew nwy" a "nwy naturiol" yr ystyron a roddir i "biomass", "gas oil" a "natural gas" yn Erthygl 3 o'r CCHC;

ystyr "CCHC" ("*MCPD*") yw'r Gyfarwyddeb Cyfarpar Hylosgi Canolig (Cyfarwyddeb 2015/2193/EU) fel y diffinnir "the Medium Combustion Plant Directive" yn rheoliad 3(1) o Reoliadau 2016;

ystyr "CHC" ("*MCP*") yw cyfarpar hylosgi canolig fel y diffinnir "medium combustion plant" ym mharagraff 2(1) o Atodlen 25A i Reoliadau 2016;

ystyr "CNC" ("*NRW*") yw Corff Adnoddau Naturiol Cymru;

mae i "cyfarpar hylosgi" yr ystyr a roddir i "combustion plant" yn rheoliad 2(1) o Reoliadau 2016;

ystyr "Rheoliadau 2016" ("*the 2016 Regulations*") yw Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016(**1**);

ystyr "tanwydd newydd" ("*new fuel*") yw tanwydd (heb gynnwys biomas, olew nwy na nwy naturiol) nad oes TGA wedi ei bennu ar ei gyfer mewn trwydded a ddyroddwyd cyn i'r Cyfarwyddyd hwn ddod i rym sy'n caniatáu defnydd o'r tanwydd hwnnw mewn CHC yng Nghymru;

---

(**1**) O.S. 2016/1154.

ystyr “TGA” (“*ELV*”) yw’r swm a ganiateir o sylwedd a gynhwysir yn y nwyon gwastraff o gyfarpar hylosgi y ceir ei ollwng i’r awyr yn ystod cyfnod penodol fel y diffinnir “emission limit value” yn Erthygl 3(2) o’r CCHC.

**3. Cyfarpar Hylosgi Canolig sy’n gweithredu ar danwyddau newydd**

(1) Wrth gyflawni ei swyddogaethau (gan gynnwys o dan baragraffau 4(1)(d) ac (e), 4(3) a 6 o Atodlen 25A i Reoliadau 2016) cyfarwyddir y caiff CNC bennu TGAau ar gyfer tanwydd newydd a ddefnyddir mewn CHC a chaiff hefyd ddiweddaru’r TGAau hynny.

(2) Wrth bennu neu ddiweddaru TGA rhaid i CNC ddilyn dull seiliedig ar dystiolaeth—

(i) sy’n ystyried nodwedd yr CHC,

(ii) sy’n darparu naill ai lefel uwch o warchodaeth i’r amgylchedd neu o leiaf yr un lefel gyffredinol o warchodaeth i’r amgylchedd a fyddai fel arall wedi cael ei rhoi drwy gymhwyso terfynau allyriadau a bennwyd o dan ddarpariaethau Rhan 2 o Atodlen 25A i Reoliadau 2016, ac

(iii) sy’n cymryd i ystyriaeth farn gweithredwr yr CHC ac unrhyw barti arall y mae CNC yn ystyried y dylid ymgynghori ag ef.

*Huw Irranca-Davies*
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
23 Mawrth 2026